



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cod Aseiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Dyddiad cyhoeddi: 8fed Rhagfyr 2020  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4ydd Mawrth 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio barn am ddrafft diwygiedig o God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.

**Sut i ymateb**

Gallwch ymateb drwy lenwi'r holiadur byr ar ddiwedd y ddogfen hon a'i bostio neu ei e-bostio i'r cyfeiriad isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Rhowch unrhyw gyfeiriadau at y rhynggrwyd, dogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ymgynghoreion e.e. cyfeiriad gwe ymgynghori, atodiad manwl i'r ymgynghoriad

**Manylion cyswllt:**

I gael rhagor o wybodaeth neu ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:

[EconomicAppraisal@gov.wales](mailto:EconomicAppraisal@gov.wales)

Ymgynghoriad ar God yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol  
Llywodraeth Cymru  
Llys-Y-Ddraig  
Parc Busnes Penlle'r-gaer  
Abertawe  
SA4 9NX

**Also available in English at:**

<https://gov.wales/regulatory-impact-assessment-code-for-subordinate-legislation>

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gcontract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni chaiff unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod am y data personol sydd gennym amdanoch a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ymgynghoriad yw hwn ar ddrafft o God Asesu Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru (y Cod drafft) sydd ynghlwm yn Atodiad A.
- 1.2 Mae Adran 76(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Cod Ymarfer sy'n nodi eu polisi ar gyfer cynhyrchu asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru.
- 1.3 Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn rhan allweddol o'r broses llunio polisiâu yng Nghymru, gan roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru am y costau, y manteision a'r risgiau cymharol sy'n gysylltiedig ag ymyriadau polisi amgen a'u galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ar y camau gweithredu mwyaf priodol o safbwynt gwerth am arian.
- 1.4 Mae'r aseiad hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Senedd a rhanddeiliaid megis darparwyr gwasanaethau, busnesau, sefydliadau'r trydydd sector a defnyddwyr am yr opsiynau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried a'r rhesymau pam y dewiswyd opsiwn penodol fel yr opsiwn a ffefir. Mae cwblhau aseiad cadarn a chymesur yn bwysig o ran galluogi'r grwpiau hyn i graffu'n effeithiol ar ddeddfwriaeth arfaethedig

## 2. Y sefyllfa bresennol

- 2.1 Cyhoeddwyd y fersiwn bresennol o'r Cod yn 2009 ac mae'n nodi mai polisi Gweinidogion Cymru yw cyflawni Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth oni bai bod un o lond dwrn o eithriadau yn gymwys.
- 2.2 Er ein bod yn credu bod y polisi eang hwn ar gyfer datblygu RIAs ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn parhau'n ddilys, rydym yn cydnabod bod rhywfaint o'r derminoleg a ddefnyddir yn y Cod presennol yn hen ac nad yw'r Cod presennol yn adlewyrchu rhai newidiadau deddfwriaethol sylweddol sydd wedi digwydd ers 2009. Rydym yn credu hefyd y dylai'r Cod presennol fod yn gliriach mewn manau. Mae'r Cod drafft yn ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.
- 2.3 Mae'r canlynol yn ddolen i'r Cod presennol:

<https://gov.wales/welsh-ministers-regulatory-impact-assessment-code-for-subordinate-legislation>

## 3. Y newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'r Cod

- 3.1 Mae adrannau cychwynnol y Cod wedi'u hailysgrifennu i wneud y materion a gwmpesir gan y Cod yn gliriach. Mae drafftio adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn golygu nad yw Cod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn gymwys ond i'r is-set honno o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol) ac y mae'n rhaid ei gosod gerbron y Senedd (ar ffurf drafft neu fel arall). Is-ddeddfwriaeth sy'n bodloni'r meini prawf hyn yw 'relevant Welsh subordinate legislation' o dan adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

## Polisi ar gyfer cwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth Gymreig

3.2 Polisi Gweinidogion Cymru fydd cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol bob amser ar gyfer is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn ddarostyngedig i nifer bach o eithriadau. Trafodir yr eithriadau yn adran nesaf y ddogfen hon.

3.3 Fel yr esboniwyd uchod, nid yw adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cwmpasu holl is-ddeddfwriaeth Cymru. Nid yw'n cwmpasu is-ddeddfwriaeth nad yw'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru neu nad oes angen ei gosod gerbron y Senedd. Er hynny, mae'n bosibl o hyd y bydd Gweinidogion Cymru yn dewis cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn wirfoddol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth nad yw'n dod o dan y diffiniad o 'relevant Welsh subordinate legislation' yn Llywodraeth Cymru. Fel yr eglurir yn y Cod drafft, bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio dull cymesur wrth benderfynu a ddylid cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn wirfoddol. Po fwyaf yw effaith ddisgwyliedig yr is-ddeddfwriaeth, mwyaf tebygol yn y byd ydyw y bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gynhyrchu.

### Eithriadau

3.4 Ar yr un pryd â diweddarau terminoleg a symleiddio'r Cod, rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i adolygu'r senarios neu'r 'eithriadau' lle na fyddai'n ofynnol i Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol. Mae'r Cod presennol yn nodi'r saith 'eithriad' canlynol:

- Lle nad yw'r is-ddeddfwriaeth yn bodloni'r meini prawf yn adran 76, hynny yw nad yw'n cael ei gwneud trwy offeryn statudol neu nad oes angen ei gosod gerbron y Cynulliad
- Lle bo'r is-ddeddfwriaeth, yn syml, yn cynyddu ffi statudol yn unol â fformiwla a bennwyd ymlaen llaw (er enghraifft, cyfradd chwyddiant)
- Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddarau rheoliadau etc nad oes ganddynt unrhyw effaith fawr ar bolisi
- Ar gyfer Gorchmynion Cychwyn sy'n rhoi grym i ddeddfwriaeth sylfaenol neu Fesurau Cynulliad gan gynnwys y cyfryw Orchmynion sydd hefyd yn arwain at wneud darpariaethau canlyniadol neu arbedion, etc.
- Lle bo'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn destun gweithdrefn ychwanegol o dan Senedd y DU. Mewn achosion o'r fath, bydd yn rhaid penderfynu ar y cyd ag adran berthnasol yn Llywodraeth y DU a fydd angen asesiad effaith rheoleiddiol.
- Lle bo angen rhoi'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn ei lle yn ddi-oed i ddelio ag argyfwng (er enghraifft, clwy'r traed a'r genau neu ffliw adar)
- Lle bo is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn cael ei gwneud wrth arfer pwerau statudol a ganiateir gan ddeddf neu fesur nad ydynt mewn unrhyw fodd yn rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru ynghylch sut y dylai'r pwerau hynny gael eu harfer.

3.5 Drwy egluro ystyr 'is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol' ac o dan ba amgylchiadau y mae'r Cod yn gymwys yn adrannau cychwynol y Cod drafft, credwn fod yr eithriad cyntaf bellach yn ddiangen ac felly mae wedi'i ddileu.

3.6 Mae'r Cod presennol yn cydnabod y byddai'n anghymesur mynnu bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd, yn syml, yn cynyddu ffi statudol drwy fformiwla a bennwyd ymlaen llaw (er enghraifft, cyfradd chwyddiant). Rydym yn credu bod yr eithriad hwn yn dal yn briodol ac yn ystyried y gellir cymhwyso'r un ddadl i is-ddeddfwriaeth sy'n cynyddu cyfraddau treth (er enghraifft, cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi), taliadau, lwfansau neu grantiau drwy fformiwla a bennwyd ymlaen llaw. Mae'r eithriad wedi'i ymestyn felly yn y Cod drafft.

3.7 Canfu trafodaethau ag adrannau polisi o fewn Llywodraeth Cymru mai un o'r prif feysydd o ansicrwydd wrth ddefnyddio'r Cod presennol oedd yr amgylchiadau lle gellir cymhwyso'r trydydd eithriad – gwelliannau technegol a ffeithiol arferol. Yn y Cod drafft, mae'r eithriad hwn wedi'i rannu'n ddau er mwyn gwneud y cymhwysiad arfaethedig yn gliriach. Yn y cyd-destun hwn, mae 'gwelliannau technegol' yn cyfeirio at newidiadau a wnaed i eiriad y gyfraith nad ydynt yn newid sylwedd nac effaith y gyfraith (er enghraifft, lle mae angen diweddarau cyfeiriadau). Ystyrir bod 'mân ddiwygiadau ffeithiol' yn newidiadau a wneir i'r gyfraith nad ydynt yn newid y polisi mewn unrhyw ffordd sylweddol neu sy'n cael effaith sylweddol ar sut y cymhwysir y gyfraith mewn unrhyw sefyllfa benodol. Un enghraifft fyddai'r rheoliadau diwygio a wneir bob blwyddyn i gymhwyso deddfwriaeth cyllid myfyrwyr i flwyddyn academaidd newydd. Mae'n werth atgyfnerthu mai'r bwriad yw i'r eithriadau hyn fod yn gymwys yn unig pan ddisgwylir i effaith y newid deddfwriaethol fod yn fach iawn a lle na ddisgwylir iddo osod unrhyw gost ychwanegol sylweddol neu unrhyw gost ychwanegol sylweddol ar fusnes, y sector cyhoeddus neu sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru.

3.8 Mae'r pandemig presennol wedi amlygu diffyg eglurder yng ngeiriad presennol yr eithriad sy'n ymwneud â sefyllfaoedd argyfwng. Mae'r eithriad presennol yn cyfeirio at is-ddeddfwriaeth y mae angen ei rhoi ar waith yn gyflym i ddelio ag argyfwng. Er hynny, cafwyd sawl darn o is-ddeddfwriaeth y bu angen eu rhoi ar waith yn gyflym nid o reidrwydd i ddelio â'r coronafeirws ei hun ond yn hytrach i ymateb i ganlyniad i'r pandemig.

3.9 Er mwyn adlewyrchu hyn, ailysgrifennwyd yr eithriad i'w gwneud yn glir bod yr eithriad yn gymwys pan fo angen is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol ar frys i ymateb yn uniongyrchol i argyfwng ac i ymateb yn briodol i amgylchiadau llai uniongyrchol sy'n deillio o sefyllfa argyfwng. Ni fydd yr eithriad diwygiedig yn gymwys ond i deddfwriaeth y mae ei hangen i ddelio â bygythiad i iechyd pobl, planhigion neu anifeiliaid neu ddifrod difrifol i eiddo. Mae enghreifftiau o pryd y gellid defnyddio'r eithriad hwn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r coronafeirws, fflw adar neu'r perygl o lifogydd difrifol etc. Ym mhob achos, gall mynnu bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gwblhau beri oedi cyn gosod is-ddeddfwriaeth ac mae risg y gallai wneud sefyllfa argyfwng yn waeth.

3.10 Mae'r Cod drafft hefyd yn cynnwys eithriad ehangach na fyddai yn gymwys ond mewn sefyllfaoedd argyfwng lle byddai'r oedi a achosir gan gynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn trechu'r nod o gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth. Y bwriad yw i'r eithriad hwn

gael ei gymhwyso mewn amgylchiadau prin ac eithafol yn unig lle mae angen ymateb ar unwaith.

3.11 Mae'r newid terfynol i'r eithriadau yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn ychwanegol gan Senedd y DU. Hyd eithaf ein gwybodaeth, nid yw'r eithriad hwn erioed wedi'i gymhwyso ac mae'r amgylchiadau lle y byddai'n gymwys yn aneglur. Am y rheswm hwn, mae'r eithriad wedi'i dynnu o'r Cod drafft.

### Newidiadau eraill

Gwnaed mân newidiadau i adran ymgynghori'r Cod drafft (Adran 4) i sicrhau ei bod yn adlewyrchu cynlluniau diweddaraf Partneriaeth Llywodraeth Leol, y Trydydd Sector a Busnes ac yn cyfeirio at yr holl ddyletswyddau statudol. Nid yw'r ymrwymiad i ymgysylltu â phartneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth a RIAs wedi newid.

### **Cwestiynau**

1. A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig a nodir yn y Cod drafft ar gyfer cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol?
2. A ydych yn cytuno bod yr eithriadau a nodir yn y Cod drafft (sy'n disgrifio sefyllfaoedd lle na fyddai angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol i Gymru) yn briodol?
3. A oes unrhyw senarios eraill lle nad ydych yn credu y dylai fod angen cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol?
4. A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o lunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth nad yw'n dod o dan y diffiniad o 'is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol'?

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon hefyd yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg.

### **4 Y Camau Nesaf**

4.1 Bydd yr ymgynghoriad ar y Cod drafft ar agor am gyfnod o ddeuddeg wythnos. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, caiff ymatebion eu hystyried a bydd unrhyw ddiwygiadau pellach y gallai fod eu hangen yn cael eu drafftio.

4.2 Yn ddarostyngedig i'r safbwyntiau a gyflwynir yn ystod yr ymarfer ymgynghori hwn, bwriedir i'r Cod diwygiedig ddod i rym yn ystod 2021.



## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:	
Corff (os yw'n briodol):	
E-bost/rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

### Cwestiynau

<b>Cwestiwn 1:</b> A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig a nodir yn y Cod drafft ar gyfer cynhyrchu Aseiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol?
<b>Cwestiwn 2:</b> A ydych yn cytuno bod yr eithriadau a nodir yn y Cod drafft (sy'n disgrifio sefyllfaoedd lle na fyddai angen Aseiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol i Gymru) yn briodol?
<b>Cwestiwn 3:</b> A oes unrhyw senarios eraill lle nad ydych yn credu y dylai fod angen cynhyrchu Aseiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o lunio Aseiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth nad yw'n dod o dan y diffiniad o 'is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol'?

**Cwestiwn 5:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Cod drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lleddfu effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 6:** Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r Cod drafft gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 7:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: